

# Adroddiad Blynyddol

# Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

# 2019/20

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

www.gwynedd.llyw.cymru

# Arweiniad Ieithyddol

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, gofynnwch i rywun yr ydych yn eu hadnabod sydd yn siarad Cymraeg neu Saesneg i ffonio 01766 771000.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.

If you need further information, please ask someone you know who speaks English or Welsh to telephone 01766 771000

Jeżeli potrzebują państwo dalszych informacji, proszę poprosić kogoś, kto mówi po angilesku lub walijsku żeby zadzwonił pod numer 01766 771000

Se você precisar de nova informação, por favor pergunte alguém você sabe quem diz o galês o'r inglês para telefonar 01766 771000

如果您需要更多信息，请向你认识的人谁讲英语或威尔士电话：01766 771000

আপনার যদি আরো তথ্যের প্রয়োজন হয়, তাহলে আপনার জানা ইংরেজী অথবা ওয়েলশ ভাষা বলতে পারেন এমন কাউকে অনুগ্রহ করে01766 771000 নম্বরে টেলিফোন করতে বলুন

اگر آپ کو مزید معلومات درکار ہوں تو برائے مہربانی انگریزی یا ویلش زبان جاننے والے اپنے کسی واقف کار سے کہیں کہ وہ آپ کی جانب سے فون نمبر 01766 771000 سے رابطہ کریں۔

اذا كنت بحاجة الى مزيد من المعلومات ، يرجى الطلب من شخص ما تعرف من يتحدث الإنجليزية أو الويلزية الهاتف01766771000

# Cyflwyniad Agoriadol y Cyfarwyddwr

**Mae'n bleser gennyf, unwaith eto eleni, gyflwyno fy adroddiad blynyddol fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Rwyf wedi ysgrifennu'r adroddiad yma ar adeg lle rydym wrth gwrs yn ceisio ymdopi gydag argyfwng Covid-19. Mae'n amlwg felly yn gyd-destun hynod bwysig wrth edrych yn ôl ar berfformiad 2019/20. Mae hefyd yn hollbwysig i mi gymryd y cyfle yma i ddiolch o waelod calon i bob un o weithwyr gofal y sir, boed nhw yn gweithio i'r Cyngor neu i asiantaeth allanol, am eu hymroddiad a'u gwaith caled drwy 2019/20 ond hefyd yn amlwg dros y cyfnod heriol iawn rydym ynddo ar hyn o bryd. Mae wedi bod yn glir iawn i mi, ac i ni gyd fel cymdeithas, pa mor werthfawr ac hanfodol ydi'r gweithlu yma i'n llesiant a'n hiechyd ni fel pobl. Mae'n diolch yn enfawr iddynt i gyd.**

Rwy'n falch o ddweud fy mod yn hapus gyda pherfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd ar gyfer 2019/20. Yn amlwg, mae rhai heriau sydd angen eu goresgyn. Mae'r rhan helaeth o'r rhain eisoes yn derbyn sylw gan yr adrannau perthnasol ynghyd â fforymau iechyd a gofal rhanbarthol a chenedlaethol. Fel rwyf yn adrodd bob blwyddyn, mae diogelu plant a phobl bregus yn brif ddyletswydd, ac rwy'n falch o adrodd bod y sylw i'r maes o fewn y ddwy adran, ac yn ehangach ar draws y Cyngor yn gryf. Mae cynnydd mewn achosion diogelu cymhleth ac anodd yn realiti cenedlaethol yn anffodus, ac mae Gwynedd yn profi hyn yn ogystal. Mae'r Adran Blant yn arwain sawl ffrwd gwaith yn y maes pwysig yma ac rwy'n falch iawn o'r gwaith arbennig sy'n digwydd. Yn ogystal mae'r maes diogelwch cymunedol bellach o fewn yr Adran Oedolion, sydd yn mynd i sicrhau bod y rhwydweithiau pwysig a phriodol yn eu lle ar gyfer ymateb i'r heriau newydd o fewn cymdeithas.

Mae sicrhau bod gennym ddigon o staff â'r sgiliau cywir i ddiwallu anghenion ein poblogaeth yn her parhaus i ni fel Cyngor. Er bod peth llwyddiant wedi bod gydag ymgyrchoedd recriwtio, bydd angen sylw penodol i hyn dros y misoedd nesaf er mwyn sicrhau bod gennym yr adnoddau cywir i ymateb yn effeithiol i ofynion ein poblogaeth. Rwy'n falch o'r gwaith sy'n digwydd i gyflwyno model gofal cartref newydd i'r dyfodol a fydd yn ein galluogi i dynnu'r partneriaid perthnasol ynghyd i weithio'n fwy effeithlon ac yn fwy lleol. Mae gwaith y sector gofal yn ei gyfanrwydd yn parhau'n arbennig, ond mae'n sector sy'n fregus mewn mannau a bydd angen i ni weithio gyda nhw a'n partneriaid yn lleol ac yn rhanbarthol i sicrhau eu bod mor wydn a phosib yn symud ymlaen. Rwy'n rhagweld y bydd angen trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru hefyd ar ambell fater er mwyn sicrhau bod y sector yn gynaliadwy i'r dyfodol.

Mae lot fawr o gynnwys yr adroddiad yn sôn am ein gwaith i geisio sicrhau ein bod yn ymateb i ofynion pobl drwy roi'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw yn ganolog. Gwelaf o'm trafodaethau gyda rheolwyr ac arweinwyr a staff rheng flaen bod y diwylliant hwn yn tyfu, ond bod rhai rhwystrau'n parhau. Byddaf yn gweithio gyda'r ddau Bennaeth a'r Aelodau Cabinet i sicrhau ein bod yn deall y rhwystrau hyn ac yn gwneud popeth y gallwn i'w dileu, gan hefyd, wrth gwrs, ddysgu o beth sydd wedi ei weld dros y misoedd diwethaf.

Hoffwn felly gyflwyno yr adroddiad yma fel adroddiad sydd yn ceisio rhoi trosolwg deg o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd.





**Morwena Edwards**

Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | **5** |
| 2. | Sut mae pobl yn ein cefnogi i lunio ein gwasanaethau | **6** |
| 3. | Hyrwyddo a gwella lles y rheini yr ydym yn eu cynorthwyo | **9** |
| 4. | Sut rydym yn gwneud ein gwaith | **25** |
| 5. | Blaenoriaethau 2020/21 | **33** |
| ATODIAD 1: | Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd 2019/20 | **34** |
| ATODIAD 2: | Gwybodaeth ynghylch y Safonau Ansawdd fel nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) | **38** |

# 1. Cyflwyniad

Ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol baratoi a chyhoeddi adroddiad yn gwerthuso perfformiad yr awdurdod lleol mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol dros y flwyddyn flaenorol, gan dynnu sylw at wersi sydd wedi eu dysgu neu welliannau sydd angen eu cyflwyno. Dylai'r adroddiad hefyd osod amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod mewn perthynas â hyrwyddo llesiant pobl a gofalwyr sydd angen gofal a chefnogaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu ar y flwyddyn ariannol 2019-20. Mae'n dilyn trefn benodol, gan bod angen i ni adrodd, drwy ddefnyddio'r dangosyddion a'r mesurau perfformiad perthnasol, sut yr ydym fel Cyngor wedi cyflawni yn erbyn y chwe safon ansawdd llesiant sydd wedi'u nodi o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Fel roeddwn yn cychwyn ar ysgrifennu'r adroddiad hwn, roeddem yn wynebu her yn sgil argyfwng Covid-19 ac ymdopi ag o oedd y flaenoriaeth amlwg. O ganlyniad, eleni mae'r adroddiad wedi ei lunio gan ddibynnu ar drafodaethau ac adroddiadau cynnydd dros y flwyddyn ynghyd â rhai trafodaethau pellach gyda swyddogion perthnasol.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cyfraniadau i ddod a'r adroddiad at ei gilydd mewn cyfnod mor heriol.

Wedi darllen yr adroddiad, pe byddai gennych unrhyw sylwadau ar y cynnwys, neu o ran sut i lunio gwasanaethau i'r dyfodol, rwy'n awyddus iawn i glywed gennych:


01286 679468

awenmorwenaedwards@gwynedd.llyw.cymru

## 2. Sut mae pobl yn ein cefnogi i lunio ein gwasanaethau

Ers rhai blynyddoedd bellach mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ffordd o weithio sy'n ceisio rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid sicrhau ein bod yn deall beth sydd yn bwysig i bobl Gwynedd. Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi cynnal sawl arolwg ac ymarferiad ymgysylltu gan gynnwys grwpiau ffocws, gweithdai a fforymau. Mae llais a barn trigolion Gwynedd yn hanfodol er mwyn sicrhau fod gwasanaethau'r Cyngor yn cwrdd ag anghenion pobl a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Yn ystod 2019/20 fe dderbyniwyd cyfanswm o 2,199 o ymatebion i **ymgynghoriadau cyhoeddus** y Cyngor megis Holiadur Busnesau Gwynedd, Ymgynghoriad Cynllun Cydraddoldeb ayb. Mae'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn allweddol bellach wrth gyfathrebu â thrigolion y sir. Dros y flwyddyn diwethaf, rydym eto wedi gweld cynnydd yn y defnydd, gyda 29,500 o ddilynwyr ar gyfrifon Facebook, Trydar ac Instagram y Cyngor.

Gyda mwy o drigolion Gwynedd yn defnyddio **gwasanaethau ar-lein** nac erioed o'r blaen, rydym yn ychwanegu'n barhaus at yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael. Mae defnydd o'n hadnoddau hunanwasanaeth ar ein gwefan yn cynyddu, gyda 10,434 o gyfrifon newydd wedi eu hagor yn ystod 2019/20 (gan olygu cyfanswm o 51,509 cyfrif bellach). Mae'r dull yma'n hwyluso mynediad i rai o'n trigolion sy'n ei chael yn anodd i gysylltu dros y ffôn neu alw i mewn yn Siop Gwynedd. Wrth gwrs, mae argyfwng Covid-19 wedi golygu fod mwy o bethau nag erioed yn digwydd ar-lein. Mae hyn wedi amlygu pwysigrwydd cynhwysiad digidol ac mae sawl agwedd i hyn – fforddiadwyedd cyfarpar, isadeiledd addas a'r sgiliau priodol i'w ddefnyddio. Mae'r Bwrdd Cefnogi Pobl yn ystyried a yw ein trefniadau presennol ar gyfer ymyrryd yn y meysydd yma yn ddigonol ynteu a oes angen bod yn gwneud mwy.

Mae gan Gyngor Gwynedd **Banel Trigolion** er mwyn sicrhau fod llais trigolion Gwynedd yn ganolog wrth i'r Cyngor gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau lleol i'r dyfodol.




Er mwyn adeiladu ar yr **Asesiad Anghenion Rhanbarthol**, rydym wedi bod yn ceisio gwella ein dealltwriaeth o **Anghenion ein Poblogaeth** ar y lefel fwyaf lleol posib drwy weithio gydag unigolion, teuluoedd a'n partneriaid i ddarganfod yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar

agweddau penodol o wasanaethau sy'n cael sylw fel rhan o'n rhaglen drawsnewid e.e. gofal cartref ac anghenion lletya unigolion ag anabledd dysgu. Defnyddir yr wybodaeth yma i sicrhau ein bod yn datblygu gwasanaethau sy'n briodol ac yn addas yn unol ag anghenion y rheiny fydd yn eu defnyddio i'r dyfodol.

Fel rhan o ofynion Llywodraeth Cymru, rydym yn gofyn i Oedolion a Gofalwyr sy'n derbyn cefnogaeth gennym gwblhau **Holiadur Blynyddol**. Derbyniwyd 394 o ymatebion i'r holiadur oedolion, ac 145 i'r holiadur gofalwyr. Gwelwyd bod 53.8% o Ofalwyr Gwynedd wedi adrodd eu bod yn "gallu gwneud y pethau sy'n bwysig i mi", gyda 38.3% yn adrodd bod hyn yn wir weithiau. Adroddodd 88.8% o oedolion eu bod yn "hapus gyda'r gofal a'r cymorth a gefais", ac 82.44% yn adrodd eu bod "wedi cymryd rhan weithredol mewn unrhyw benderfyniadau am y ffordd y cafodd fy ngofal a'm cymorth ei ddarparu". Mae gan y Bwrdd Cefnogi Pobl ffrwd gwaith penodol er mwyn adolygu sut ydym ni'n cefnogi gofalwyr a bydd yr wybodaeth uchod, yn ogystal â'r wybodaeth sydd wedi'i gasglu'n ystod cyfnod argyfwng Covid-19 yn helpu siapio ein cefnogaeth i'r dyfodol.

Mae barn plant hefyd yn hollbwysig i ni ac mae plentyn mewn gofal bellach yn aelod o'r **Panel Rhiant Corfforaethol**. Fel rhan o waith y panel, mae cyfle i glywed llais plant a phobl ifanc, a chyfleon i dderbyn adborth gan rieni maeth. Mae bwriad gennym i barhau i gryfhau'r trefniadau hyn i sicrhau nad ydym yn colli gafael ar ein dealltwriaeth o sut allwn ni wella'n gwasanaethau'n unol â'r hyn sy'n bwysig i blant mewn gofal. Cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru adroddiad ar ei hymgynghoriad 'Coronafeirws a Fi: Gwynedd' yn ddiweddar hefyd a oedd yn gyfle pellach i ni gael gwybod beth yw teimladau plant yng Ngwynedd. Roedd yr adroddiad yn un cadarnhaol a bydd yr wybodaeth yma'n cael ei ddefnyddio wrth i ni wneud penderfyniadau am wasanaethau plant yn lleol.

Fel rhan o waith y Parth Plant, wrth adolygu Grantiau Plant a Chymunedau a Grantiau Cymorth Tai, ac fel rhan o ymarferion Ffordd Gwynedd dywedodd trigolion Gwynedd wrthym eu bod eisiau mynediad hawdd i'r gefnogaeth priodol ar yr adeg iawn. Mae'n **Bwrdd Cefnogi Pobl** yn arwain ar y gwaith o fapio gwasanaethau ac adolygu effeithiolrwydd trefniadau presennol[1]. Yn ogystal, mae gwaith yn digwydd rhwng yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Addysg er mwyn edrych ar y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni eu hanghenion i'r gorau o'n gallu ac yn cynyddu effeithiolrwydd ar draws y sir.

[1] Mwy o wybodaeth am waith y Bwrdd Cefnogi Llesiant Pobl o dan 'Safon Ansawdd 2'.

Fel rhan o'r gwaith hwn, yn ystod Chwefror a Mawrth 2020 buom yn ymgysylltu â theuluoedd a defnyddwyr gwasanaeth er mwyn clywed am eu profiadau nhw o'n gwasanaethau a beth allai fod wedi gwneud eu profiadau'n well. Mae argyfwng Covid-19 yn anochel wedi arwain at oediad yn y gwaith yma ond byddwn yn parhau'n ystod 2020/21 i ddatblygu'r ymyrraeth briodol i symud ymlaen â'r gwaith hwn yn unol â'r wybodaeth rydym wedi ei gael gan unigolion a'u teuluoedd.

Enghraifft arall o sut mae trigolion Gwynedd yn rhoi eu barn ar wasanaethau plant yw'r adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan gartref Hafan y Sêr i gasglu barn rhieni a phlant o'r gofal a'r gwasanaeth a gynhigir yno. Daeth adborth clir fod y gwasanaeth yn llwyddo i gyflawni ei bwrpas, sef rhoi ysbaid, hwyl a mwynhad i blant, ac ysbaid i rieni sy'n gwybod fod eu plant yn ddiogel yno ac yn cael pob gofal. Mae hyn yn atgyfnerthu negeseuon o'n harchwiliad Arolygiaeth Gofal Cymdeithasol a'n hadroddiad Ansawdd Gofal diweddar.

Yn ogystal, mae **Model Gweithredu** wedi'i ddatblygu ar gyfer Timau Adnoddau Cymunedol Gwynedd a Môn (sy'n rhan o wasanaethau Oedolion y Cyngor). Bwriad y model ydi sicrhau fod unigolion yn byw bywyd fel y maent eisiau ei fyw, drwy ganfod, deall, a gweithredu beth sy'n bwysig i'r unigolyn, adnabod rhwystrau a ffyrdd o'u goresgyn, er mwyn gwella gwasanaethau'n barhaus. Mae gweithio yn y ffordd yma yn newid diwylliant sylweddol a bydd angen amser i wreiddio'n llawn. Ond o'r hyn a wyddwn o enghreifftiau byw, mae gweithio yn y ffordd yma'n sicr yn gwella profiad unigolion ac yn cryfhau'r gwasanaethau i ddefnyddwyr i'r dyfodol.

# 3. Hyrwyddo a Gwella Llesiant y rhai yr ydym yn eu helpu

Yn y bennod hon, byddaf yn gwerthuso ein cynnydd yn ystod 2019/20 yn erbyn y chwe safon ansawdd sydd yn cael eu nodi gan y Llywodraeth yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn ogystal, byddwn yn rhoi braslun o'r hyn rydym yn fwriadu ei wneud yn 2020/21. Mae rhagor o fanylder am yr hyn mae'r Ddeddf yn ei nodi sydd angen i awdurdodau lleol ei wneud er mwyn cyflawni'n erbyn pob safon ansawdd i'w ganfod yn Atodiad 2.

## Safon Ansawdd 1

**Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y maent am eu cyflawni**

Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu fod angen i ni sicrhau fod pobl yn cael eu cynnwys yn y penderfyniadau a wneir ynghylch eu gwasanaethau, a'u bod yn ymwybodol o sut i gael mynediad at gyngor a chefnogaeth fel bo angen. Y nod yw i sicrhau fod y gefnogaeth rydym yn ei ddarparu yn addas i'r unigolyn ac yn cefnogi eu llesiant.

Fe gofiwch ein bod wedi sefydlu 5 **Tîm Ardal Lleol** er mwyn darparu gwasanaeth iechyd a gofal di-dor. Mae'r timau yn cynnwys aelodau o staff y Bwrdd Iechyd, Cyngor Gwynedd a'r drydedd sector a'r bwriad yw y bydd y timau'n gweithio i egwyddorion penodol wrth rannu'r ardaloedd yn *patches* mwy lleol, gan gynnig un person arweiniol i'r unigolyn er mwyn hwyluso eu taith drwy'r gyfundrefn gofal ac iechyd. Mae tîm trawsffurfio wedi ei sefydlu i ddarparu'r arweiniad a'r gefnogaeth briodol i helpu symud y gwaith yma yn ei flaen. Yn naturiol, mae ceisio uno diwylliant, gweithdrefnau, cyllidebau a pholisïau, a datblygu'r isadeiledd a'r dechnoleg i gefnogi ac i adlewyrchu hynny yn dod a'i heriau ac yn amlygu'r angen i fuddsoddi amser ac adnoddau i wireddu'r weledigaeth o weithredu fel un. Rwyf fel Cyfarwyddwr, ynghyd â Phennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant y Cyngor a Chyfarwyddwr Ardal y Bwrdd Iechyd yn glir o'r angen i barhau ar y daith ac i roi rhagor o sylw i'r materion sy'n parhau yn rwystr.

Un o ofynion y Ddeddf ydi i roi **Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth** mewn ffordd syml ac hygyrch ac mae gennym wasanaeth penodol i wneud hynny (GCCh). Mae'r GCCh wedi ei ymgorffori o fewn y 5 tîm lleol, gyda rhaglen waith manwl mewn lle i'w ddatblygu ymhellach er mwyn cynnwys gweithlu'r Bwrdd Iechyd a chreu un pwynt cyswllt lleol. Rydym wedi ehangu trefniadau cydweithio â'r trydydd sector hefyd.

Fel rhan o drefniadau ymateb i argyfwng Covid-19, sefydlodd y Cyngor dîm penodol – sef **Tîm Cymorth Covid** – i geisio ymateb i lesiant unigolion oedd wedi eu heffeithio gan yr argyfwng. Roedd y tîm yn gweithio'n agos efo eraill, gan gynnwys y GCCh mwyn cefnogi unigolion. Mae'r ymdrechion wedi ein caniatáu i ddysgu llawer am yr hyn sydd ei angen ar bobl y sir a'r bylchau sydd angen i ni eu llenwi, ac mae gwaith yn digwydd rŵan er mwyn edrych yn fanylach ar y model sydd ei angen arnom fel Cyngor i'n caniatáu i gefnogi llesiant unigolion i'r dyfodol.

Mae gwaith yn digwydd hefyd i wella profiadau pobl drwy gryfhau gallu ein timau cymunedol i ymateb a rhoi cefnogaeth wrth i bobl **drosglwyddo o'r ysbyty i'r gymuned**. Er enghraifft, yn Ysbyty Gwynedd, treialwyd trefn lle'r oedd ein gwasanaeth gofal cartref yn ymweld â'r unigolion fyddai fel arfer yn derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gymryd cyfrifoldeb am dynnu'r claf allan o'r ysbyty a chydlynu'r gofal. Roedd y drefn syml yma'n golygu cysondeb yng ngofal yr unigolyn a ffocws ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, gan ddileu'r arfer o dynnu mwy o broffesiynau na sy'n angenrheidiol i mewn. Golyga hyn fod amser arhosiad yn yr ysbyty yn gostwng yn sylweddol a bod y cleifion yn agosach at y penderfyniadau sy'n eu heffeithio nhw. Byddwn yn adeiladu ar y trefniadau dechreuol gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn ystod argyfwng covid-19 i sicrhau bod y model cywir yn cael ei ddatblygu wrth symud ymlaen.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, rydym wedi bod yn cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu'r ffordd mae **gofal cartref** yn cael ei ddarparu yn y sir. Mae'r cynlluniau peilot wedi ein galluogi i gynnig cymorth sydd wedi ei deilwra'n fwy penodol i anghenion unigolion a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Bellach, rydym wedi penderfynu sefydlu model newydd ar draws Wynedd gan roi pwyslais ar helpu pobl hŷn i fyw eu bywydau fel y maent eisiau ei fyw. Mae'r model newydd o ddarparu a chomisiynu gofal cartref ar sail is-ardaloedd ac ar ddiwedd 2019-20, cytunwyd i gomisiynu ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd i'r dyfodol. Drwy'r model newydd bydd yr holl asiantaethau ac unigolion perthnasol yn dod ynghyd er mwyn gweithio'n fwy effeithlon yn lleol.

Rydym wedi parhau, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd, i ddatblygu **darpariaeth dementia arbenigol** yn ein cartrefi mewnol fel rhan o becyn o wasanaethau gofal arbenigol ar draws y sir. Agorwyd unedau dementia newydd yn Nhywyn, Nefyn a Bangor ac mae'r buddsoddiad wedi gwella ansawdd gofal a'r amgylchedd i breswylwyr. Gobeithir agor uned pellach yn Llan Ffestiniog yn 2020/21, yn ogystal â gweithredu cynlluniau pellach ar gyfer Dolgellau a'r Bermo.

Pwrpas ein **Strategaeth Cefnogi Teuluoedd** yw i ddatblygu gwasanaethau llawer mwy integredig o fewn y Cyngor a gyda'n partneriaid gan ganolbwyntio ar adnabod anghenion yn gynnar, targedu teuluoedd yn gywir a chynnig gwasanaethau cyn i'r anghenion

ddwysau. Rydym eisoes wedi gwneud gwaith i adnabod beth yw'r galw am gefnogaeth i deuluoedd ar draws adrannau'r Cyngor yn ogystal â mapio pa ddarpariaethau sydd ar gael i gefnogi teuluoedd ar draws y sir, a sut mae pobl yn cael mynediad i'r gwasanaethau yma. Yn sgil hyn rydym wedi ailedrych ar ffyrdd o sicrhau mai un drws ffrynt sydd gennym er mwyn rhoi cefnogaeth i deuluoedd. Yn 2019/20 bu i ni dreialu rolau **Cysylltwyr Cymunedol** yn y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth gyda'r nod o dynnu'r holl wybodaeth i deuluoedd i un lle (Hwb Teuluoedd Gwynedd) yn seiliedig ar themâu sy'n bwysig i'n teuluoedd. Byddwn yn parhau i adolygu a yw'r trefniadau hyn yn addas i drigolion Gwynedd wrth symud ymlaen.

Mae ein rhaglen **Teuluoedd yn Gyntaf** yn parhau i weithio'n gynnar pan fo her neu bryder yn amlygu mewn cartref. Mae'r newid cyfeiriad a strwythur o amgylch y rhaglen yn y flwyddyn ddiwethaf wedi caniatáu i ni dargedu'r gefnogaeth fwyaf addas i anghenion a sefyllfa'r teulu. Mae'r Tîm Cefnogi Teulu a Chydlynwyr Teulu yn rhan greiddiol o'r gefnogaeth gynnar i deuluoedd cyn y bydd angen galw ar ymyrraeth y Timau Gwaith Cymdeithasol.

Rydym hefyd wedi arwain ar **Brosiect Trawsffurfio'r Blynyddoedd Cynnar** fel rhan o raglen Plant yn Gyntaf Maesgeirchen (Bangor). Mae teuluoedd a gweithwyr rheng flaen gofal, iechyd, addysg a chwarae wedi dod ynghyd yn y gymuned i adnabod ffyrdd o ail-ddylunio gwasanaethau yn seiliedig ar brofiadau teuluoedd.

## Safon Ansawdd 2

**Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol pobl**

Mae cyfrifoldeb arnom i annog a grymuso pobl i warchod eu hiechyd a'u lles ac i fabwysiadau ffyrdd iach o fyw, gan dderbyn gofal a chymorth ataliol a rhagweithiol pan fo angen.

Mae ein darpariaeth **anableddau dysgu** yn ffocysu ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolion a sut allwn ni weithio gyda nhw i ddatblygu amryw o gyfleon gwahanol i'w cefnogi i edrych ar ôl eu llesiant eu hunain. Mae'r tîm llesiant wedi sefydlu amryw o ddigwyddiadau a grwpiau sy'n helpu cyfarch anghenion llesiant nifer fawr o unigolion o fewn y gwasanaeth. Er enghraifft, ymunodd dros 100 o unigolion o bob cwr o Ogledd Cymru mewn twrnament pêl-droed cerdded. Mae'r cyfleon hyn yn creu lot o gysylltiadau a ffrindiau newydd, gan hefyd roi cyfle i'r tîm llesiant a'r gweithwyr cymdeithasol adnabod unrhyw fewnbwn pellach sydd ei angen ar yr unigolion.

Mae'r **maes iechyd meddwl** a chefnogi unigolion i fyw bywyd llawn yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Rydym yn gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd i gefnogi unigolion ag anawsterau iechyd meddwl er mwyn hyrwyddo adferiad a'u cefnogi i fyw yn annibynnol. Rydym wedi bod yn gweithredu strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl', ac mewn partneriaeth sy'n cael ei harwain gan y Bwrdd Iechyd, mae **canolfannau Gallaf I (ICAN)** wedi eu datblygu i gynnig cefnogaeth cynnar i unigolion, yn y gymuned, yn agos at adref. Agorodd un ganolfan ym mis Ionawr 2020 ond oherwydd argyfwng Covid-19 a chyfyngiadau'r cyfnod clo, dydi hi ddim wedi bod yn bosib mesur yr effaith hyd yma. Bu gwaith yn digwydd rhwng rhaglen ICAN a phrif ysbyty'r sir (Ysbyty Gwynedd) hefyd er mwyn cefnogi unigolion gyda'r bwriad o atal mynediadau di-angen i'r uned seiciatryddol.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi arwain ar ddatblygu **Llwybr Llesiant i Bobl Ifanc** 11-25 oed, gyda chefnogaeth *The Mental Health Foundation*. Mae adborth a phrofiadau pobl ifanc o ddiffyg llesiant ac iechyd meddwl wedi helpu gwasanaethau cymorth i siapio darpariaeth fydd yn helpu ein pobl ifanc i gael a chynnal iechyd meddwl a llesiant emosiynol positif. Mae'r Llwybr Llesiant yn amlinellu'r darpariaethau cefnogol sydd ar gael, boed hynny yn y cartref, y gymuned, yr ysgol neu gan wasanaethau fwy arbenigol.




Mae cynnydd yn y nifer o **blant sy'n dod i mewn i ofal** y Cyngor. Ar ddiwedd Mawrth 2020, roedd 291 o blant yng ngofal y Cyngor, sy'n gynnydd o 15% o'i gymharu â'r llynedd. Mae'r niferoedd o blant mewn gofal wedi cynyddu'n flynyddol ers 2013/14 ac, ar hyn o bryd, mae'n edrych yn annhebygol y bydd y tueddiad yn newid. Rydym yn gweithio'n barhaus i geisio sicrhau bod y gefnogaeth briodol ar gael i deuluoedd fel bod plant yn gallu aros gyda'u rheini yn ddiogel. Rydym wedi cyflwyno cais grant i greu tîm aml-asiantaethol ar y cyd ag Ynys Môn er mwyn, yn bennaf, cydweithio â theuluoedd i leihau'r tebygrwydd fod angen i blant ddod i ofal all-sirol. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld y nifer o blant mewn gofal yn gostwng, ond nid ydym fel sir wedi gosod targed ar gyfer lleihau'r nifer. Yn hytrach, mae holl ymdrechion yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn cylchdroi o gwmpas sicrhau cefnogaeth amserol a phriodol i deuluoedd er mwyn eu cadw'n wydn ac iach.

Mae'r **Panel Rhiant Corfforaethol** yn parhau i edrych ar faterion penodol o fewn y maes Plant Mewn Gofal. Mae cynghorwyr a swyddogion ar draws y Cyngor, ynghyd â swyddogion o'r Bwrdd Iechyd yn aelodau o'r Panel, ac maent yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n mynd yn dda a'r hyn y gallwn ddylanwadu arno er mwyn gwella canlyniadau i'r plant sydd yn ein gofal. Rwy'n falch bod rhiant maeth a phlentyn mewn gofal yn parhau yn rhan o'r panel, a thrwy hynny fod gwneud yr hyn sy'n bwysig i blant a theuluoedd wrth wraidd y gwaith.

Rydym wedi tynnu gwasanaethau ar draws y Cyngor ynghyd i siapio'r **Rhaglen Cefnogi Llesiant Pobl**. Fel rhan o'r rhaglen, rydym wedi mapio gwasanaethau, adnabod rhwystrau a gwella ein dealltwriaeth o sut mae'n gwasanaethau yn cael eu darparu ar hyn o bryd. Mae hyn wedi amlygu nad oes cysylltiad rhwng y wahanol unedau sy'n cefnogi unigolion a theuluoedd ar faterion gwahanol. Byddwn yn parhau i edrych ar y siwrne ddelfrydol i drigolion Gwynedd wrth dderbyn cymorth neu gefnogaeth gan y Cyngor.

Mae'n **gwasanaeth llesiant,** sydd yn gweithio ar draws ein darpariaethau Oedolion a Phlant, yn anelu i wella ansawdd bywyd drwy gysylltu pobl gan roi pwyslais ar leihau unigrwydd, hybu iechyd a lles, hyrwyddo cydweithio a chryfhau a datblygu gwasanaethau yn seiliedig ar beth sy'n bwysig i bobl Gwynedd. Mae cryfhau ein **cefnogaeth i ofalwyr,** gan gynnwys gofalwyr ifanc, yn ganolog i'r gwaith a cheisir gwneud hynny trwy gynnig cyfleoedd newydd.

Mae'r prosiect **Gwydnwch Cymunedol** yn adeiladu ar gryfderau ein cymunedau yn y 5 ardal gofal gan geisio cydweithio i lenwi bylchau a chreu ystod lawn o gefnogaeth ataliol i'w gwneud yn haws i bobl barhau i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau. Mae enghreifftiau o'r cynlluniau yn cynnwys Cynllun Trafnidiaeth Cymunedol Dyffryn Nantlle, gwasanaeth Pryd ar Glud ym Mlaenau Ffestiniog, ysgogi Mens Sheds ym Mhwllheli, a chydweithio gyda Antur Waunfawr ar gyfleodd i gynnwys pobl hyn ynysig mewn gweithgareddau yn ei ardal. Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu prosiect 'Celfyddydau ar Bresgripsiwn' yma yng Ngwynedd er mwyn hybu effaith positif y celfyddydau ar iechyd meddwl. Cafwyd trafodaethau cychwynnol â phartneriaid perthnasol ynghylch sut i fynd i'r afael â materion iechyd meddwl a llesiant dynion hefyd, a bwriedir parhau â'r rhain wedi i'r sefyllfa wella'n dilyn argyfwng Covid-19.

Mae'r **Gwasanaeth Dementia Go** yn mynd o nerth i nerth gan gefnogi pobl gyda chyflyrau dwys megis Dementia a Parkinsons. Cyflwynwyd prosiect "Munud i Symud" sef cynllun o ymarferion corfforol ysgafn i breswylwyr cartrefi gofal y Cyngor. Mae rhaglen waith o weithgareddau amrywiol yn arwain at wythnos mabolgampau flynyddol rhwng y cartrefi. Mae'n cynnig agwedd arall ar hyrwyddo llesiant yr unigolyn ac mae wedi bod yn lwyddiant mawr ymhlith preswylwyr.

## Safon Ansawdd 3

**Diogelu ac amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed**

Mae hyn yn cynnwys darparu gofal a chefnogaeth i amddiffyn pobl, tra hefyd yn eu grymuso i deimlo mewn rheolaeth cymaint a phosib.

Mae diogelu yn fater i bawb ac mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae wrth roi gwybod am unrhyw bryderon sydd gennym am iechyd a lles unigolion. Rydym fel Cyngor yn sicr wedi dod yn bell yn ein gwaith i sicrhau bod ein trefniadau mewnol yn addas i bwrpas tra'n atgyfnerthu hyn.

Mae gennym drefniadau mewnol, drwy'r **Panel Strategol Diogelu**, ers rhai blynyddoedd bellach i sicrhau trosolwg a mewnbwn prif swyddogion ac aelodau cabinet ar y maes. Y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd, yw cadeirydd y Panel ac mae gennym hefyd grŵp gweithredol diogelu er mwyn monitro'r gweithrediadau ymhob adran. Mae'r Panel yn derbyn cyflwyniadau penodol ar bynciau perthnasol ac hefyd yn sicrhau bod materion sydd wedi eu codi yn y **Byrddau Diogelu Rhanbarthol**, yn y **Grwpiau Cyflawni Diogelu Môn a Gwynedd** ac ym **Mhartneriaeth Diogelwch Cymunedol Môn a Gwynedd** yn derbyn sylw priodol o fewn trefniadau ac adrannau'r Cyngor. Fel Cyfarwyddwr, rwy'n hynod falch o'r trefniadau yma ac o ymroddiad a chyfraniad swyddogion ac aelodau sy'n sicrhau bod diogelu'n flaenoriaeth barhaus. Mewn cyfnodau anodd, fel yr un yr ydym yn ei brofi ar hyn o bryd, mae trefniadau o'r fath yn hollbwysig fel nad yw diogelu'n lleihau mewn pwysigrwydd. Mae adroddiadau blynyddol ar gael sy'n egluro mwy am waith rhanbarthol diogelu a gwaith diogelwch cymunedol rhanbarthol ac is-rhanbarthol, ac rwy'n falch fod Gwynedd yn cyfrannu'n sylweddol i'r gwaith yma.

Wrth gwrs, mae'r maes diogelu'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion fel ei gilydd. Rydym yn gwybod bod y mwyafrif o blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn byw bywydau hapus, diogel ac yn mwynhau cyfleoedd i ddysgu ac i chwarae. Fodd bynnag, mae rhai plant a'u teuluoedd angen cyngor a chymorth mwy ffurfiol ar adegau gwahanol o'u bywyd. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am arwain, ymchwilio a rheoli ymyraethau diogelu plant y sir. Rydym yn gweithio'n agos gydag ysgolion, yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd, meddygon, ymwelwyr iechyd ayyb i gyflawni'r gyfrifoldeb statudol yma.

Mae'r **Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** yn parhau i gynnal safonau uchel wrth ymateb yn amserol i

gyfeiriadau a all fod yn rhai diogelu, ac i gyfeiriadau am ofal a chefnogaeth. Er mwyn diogelu plant a phobl ifanc rydym yn ymateb heb oedi, a phan fo'r cyfeiriadau'n cynnwys pryderon neu honiadau o gamdriniaeth, mae angen ymchwilio iddynt yn unol â Chanllawiau Amddiffyn Plant. Byddwn yn gwneud penderfyniad ar y ffordd orau i ymateb i bob achos o fewn pedair awr ar hugain. Rydym yn gweithredu'r dyletswyddau statudol i adolygu achosion Plant mewn Gofal ac yn rhoi arweiniad ar amddiffyn plant, gan gadeirio Cynadleddau Achos a Chyfarfodydd Strategaeth lle mae honiadau'n erbyn pobl broffesiynol. Mae'n her barhaus i sicrhau bod y drefn yn cael ei rheoli a'i gweithredu'n briodol ac mae'n hynod bwysig i mi fel Cyfarwyddwr sicrhau bod yr adnoddau priodol yn eu lle i alluogi i'r gweithdrefnau yma gael eu gweithredu'n effeithiol. Byddaf yn parhau i weithio'n agos gyda'r Pennaeth i sicrhau ein bod yn monitro'r sefyllfa.

Mae'r **Timau Gwaith Cymdeithasol** yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth ddwys i blant a'u teuluoedd, drwy eu gweld yn rheolaidd a chadw mewn cyswllt gan fod yn effro i faterion o risg i blant a phobl ifanc. Rydym yn sicrhau fod adnoddau ar gael i'w cefnogi a bod eu hanghenion yn glir i ni allu rhoi cynlluniau yn eu lle ar gyfer ymateb. Ar adegau, rydym yn eu cyfeirio ymlaen i dimau sy'n cynnig cefnogaeth fwy arbenigol. Mae'r cydweithio da rhwng timau'n golygu fod teuluoedd yn cael y gefnogaeth fwyaf priodol, ar yr adeg iawn. Rydym wedi cychwyn ar ehangu'r Cynllun Rhiant i gynnwys gwaith ein partneriaid er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o sgiliau ac arbenigeddau i gefnogi ein teuluoedd, ynghyd â sicrhau cyd-hyfforddi a chynnwys profiadau rhieni wrth ddatblygu'n gwasanaethau.


Mae'r **Cydlynydd Amddiffyn Plant** yn rôl annibynnol sy'n gyfrifol am gynnal y gofrestr amddiffyn plant a chadeirio ein cynadleddau achos. Yn ystod 2019/20, cynhaliwyd 397 o gynadleddau amddiffyn plant. Roedd canran y cynadleddau achos lle ystyriwyd fod yr asesiadau risg o safon uchel yn 99% ac yn gyson â'r blynyddoedd diweddar. Mae'r perfformiad gyson uchel yma'n dangos effaith ein buddsoddiad mewn ymarfer i sicrhau penderfyniadau da sy'n gwarchod hawliau plant a'u teuluoedd. Ymhellach, mae prosiect 'Amddiffyn Plant yn Effeithiol', wedi'i ariannu drwy grant trawsffurfio Cymru Iachach, yn symud yn ei flaen yn dda iawn gyda thîm a rhaglen waith clir mewn lle. Mae adolygiad annibynnol a gynhaliwyd wedi blwyddyn gyntaf y prosiect wedi dangos gwelliant mewn sawl agwedd o ymarfer amddiffyn ac mae'r prosiect yn parhau yn uchelgeisiol er cyfyngiadau diweddar ar y rhaglen waith oherwydd argyfwng Covid-19.

Wrth gynnal ymchwiliadau amddiffyn plant a darganfod fod angen cefnogaeth ddwys iawn ar rai teuluoedd, bydd angen i ni ddod â

phlant sydd mewn perygl i ofal y Cyngor. Maent fel arfer yn cyrraedd ein gofal dan amgylchiadau anodd iawn, a rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. Ar ddiwedd Mawrth 2020 roedd 291 o **blant yng ngofal y Cyngor**, ac roedd 69% o'r rhain yn derbyn gofal mewn lleoliad maeth, gyda 33% o ofalwyr maeth yn deulu neu ffrindiau a 21% o blant mewn gofal wedi eu lleoli gyda'u rhieni, ac felly'n parhau gartref.

Mae'r **Tîm Maethu** yn parhau i gynnig gwasanaethau o safon drwy gefnogi ein rheini maeth ac asesu darpar gofalwyr maeth er mwyn sicrhau'r gefnogaeth angenrheidiol i blant sy'n dod i'n gofal. Tra bo plentyn yng ngofal y Cyngor, ein cyfrifoldeb ni yw darparu cynllun gofal clir ar ei gyfer sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau fod y penderfyniadau iawn yn cael eu gwneud er lles y plentyn.


Mae **Swyddogion Adolygu Annibynnol** yn monitro cynlluniau gofal pob plentyn a pherson ifanc mewn gofal. Maent yn sicrhau fod y cynlluniau wedi rhoi ystyriaeth a phwysau priodol i ddymuniadau a theimladau'r plentyn, a bod y plentyn yn deall ei sefyllfa yn llawn o ystyried ei oed a'i ddealltwriaeth. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod buddiannau'r plentyn yn cael eu diogelu trwy gydol eu hamser mewn gofal. Maent yn gwrando ar blant, yn sicrhau fod plant yn cael llais ac yn hapus â'u cynlluniau, gan weithredu'n briodol os nad ydynt yn cael eu dilyn. Yn ystod 2019/20, cynhaliwyd 771 o adolygiadau o gynlluniau gofal ac ystyriwyd fod 97% o gynlluniau gofal yn cwrdd anghenion y plentyn. Mae'r perfformiad yma wedi gwella ac felly'n dangos ein bod ar y trywydd cywir tuag at sicrhau darpariaethau addas ar gyfer ein plant mewn gofal.




O ran y maes oedolion, mae'r **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** yn parhau i ymateb i faterion diogelu ac yn ystod y flwyddyn ddiweddar mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn wedi ymuno â'r adran gan eistedd gyda'r tîm diogelu.

Yn ystod 2019/20, bu 437 ymholiad diogelu, gyda 96% ohonynt wedi eu cwblhau o fewn y gofyn statudol. Mae hyn yn welliant ar y llynedd ac yn arwydd o lwyddiant y trefniadau newydd yn dilyn sefydlu'r Hwb Diogelu. Rydym yn gweithio ar leihau'r achosion na lwyddwyd i'w gweithredu o fewn y gofyn statudol.

Mae'r perfformiad yn cael ei fonitro a'i herio gan yr Uned Ddiogelu yn yr Adran yn barhaus, a phan mae angen uchafu materion i mi fel Cyfarwyddwr mae'r Adran yn gwneud hynny.




Er mwyn ceisio dysgu ac adlewyrchu, mae Gwynedd a Môn wedi archwilio achosion diogelu ar y cyd. Mae hyn wedi bod yn hynod ddefnyddiol ac mae bwriad i barhau gyda'r drefn hon ac adrodd gwersi i'r byrddau perthnasol.

Mis Hydref 2019, cawsom ymyrraeth **gweithgaredd ffocws** gan Arolygaeth Gofal Cymru (AGC). Er bod nifer o agweddau da wedi eu hamlygu, nododd yr arolygaeth bod angen gwneud gwelliannau ar rai agweddau. Mae rhaglen waith wedi ei chytuno o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac wedi ei rannu â mi fel Cyfarwyddwr.

## Safon Ansawdd 4

**Annog a darparu cefnogaeth i bobl ddysgu a chyfranogi mewn cymdeithas**

Fel Cyngor, mae angen i ni gefnogi bobl i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt, gan eu helpu i ennill sgiliau sydd eu hangen arnynt a'u hannog i gefnogi ei gilydd o fewn eu cymunedau.

Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial. Rydym yn cydnabod bod plant yn datblygu orau pan maent yn cael eu cefnogi i dyfu a llwyddo o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau. Rydym hefyd yn cydnabod bod cynnig ymyrraeth yn gynnar yn hanfodol i helpu plant a'u teuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys. Credwn mai drwy ddod a holl wasanaethau ataliol y Cyngor at ei gilydd, megis y gwasanaethau addysg a phlant, y gallwn gyd-gynllunio a darparu'r gefnogaeth orau i'n trigolion.[2]

Mae'r **Gwasanaeth Ieuenctid** ar ddiwedd eu blwyddyn gyntaf yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc drwy fodel newydd. Mae'r timau yn darparu gweithgareddau cymdeithasol, sesiynau dysgu a hyfforddiant. Yn ogystal, maent yn cynnig cefnogaeth bersonol ar y prif bethau ddywedodd pobl ifanc wrthym sy'n bwysig iddynt – sef llesiant, dysgu sgiliau newydd, a pharatoi at fywyd annibynnol a gwaith. Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd ymysg pobl ifanc oedd sesiynau creadigol fel codio, graffiti a ffilmio a gweithgareddau coginio fel paratoi bwyd a rhedeg Clwb Swper i rai dros 16. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ymateb i heriau cymdeithasol a phersonol pobl ifanc megis ymddygiadau heriol, llesiant a hunan-ddelwedd a rhwystrau i ail-ymgysylltu gydag addysg a gwaith.

Mae hi'n hollbwysig fod gwahanol oedrannau a chefndiroedd yn cyd-fyw a chymysgu yn ein cymunedau ac mae cynllun **Pontio'r Cenedlaethau** yn ffordd o sicrhau hyn drwy annog cyd-drafod am yr hyn y dymuna bobl weld yn eu hardaloedd, a chynnwys pawb mewn datblygiadau newydd. Mae sawl enghraifft ar waith drwy'r sir lle mae ysgolion a cholegau'n partneriaethu gyda lleoliadau gofal o fewn eu cymunedau (e.e Ysgol Glancegin gyda Chanolfan Ddydd Plas Hedd). Mae'r budd yn amlwg, gyda'r plant yn gweld fod y profiad yn llesol i'w sgiliau cymdeithasol a'r oedolion yn mwynhau teimlo eu cyfraniad i'r gymuned, ond yn bwysicach na dim mae'n gyfle i ffurfio perthnasau a deall yr hyn sy'n bwysig i'r

---

[2] Mae'r ymdrechion yn rhan o'r Strategaeth Cefnogi Teuluoedd ac mae rhagor o wybodaeth i'w ganfod o dan Safon Ansawdd Un.

naill a'r llall. Gwnaethom hefyd gynhyrchu llawlyfr Pontio'r Cenedlaethau i annog ysgolion i gyfeillio â chartrefi gofal neu gymdeithasau lleol er mwyn gweld yr un buddion.

Yn ystod y flwyddyn agorwyd siop newydd **"Galwch Acw"** yng Nghaernarfon, sydd â ffocws ar fyw'n gynaliadwy, er mwyn darparu hwb cymunedol sy'n cynnig gwaith a chyfleon hyfforddi i oedolion ag **anableddau dysgu**. Mae'r fenter yn cael ei rhedeg gan bartneriaeth o sefydliadau yn cynnwys Cyngor Gwynedd, ac roedd yn ffodus iawn i gael bod yn rhan o raglen Prosiect Pum Mil S4C a derbyn £5,000 tuag at ei sefydlu.

Ymhellach, ym maes **iechyd meddwl**, mae datblygiad canolfannau Gallaf I (ICAN) wedi bod yn greiddiol i'r ymdrechion i annog pobl i gefnogi ei gilydd a lleihau ynysu cymdeithasol.[3]

[3] Darperir rhagor o wybodaeth am sefydliad y canolfannau Gallaf I (ICAN) o dan Safon Ansawdd Dau.

## Safon Ansawdd 5

**Darparu cefnogaeth i bobl er mwyn iddynt ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasau iach yn y cartref, gyda'u teulu ac ar lefel bersonol**

Mae'r **Tîm Trothwy Gofal** mewn lle ar gyfer gweithio'n ddwys gyda phlant a'u teuluoedd pan mae sefyllfaoedd adref yn fregus. Adroddodd 63% o blant oedd wedi derbyn cefnogaeth gan y tîm leihad yn y ffactorau a oedd yn amlwg cyn yr ymyrraeth, gan nodi ein bod wedi osgoi dod a phlant i mewn i ofal mewn rhai achosion.




Mae'n **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid** yn dîm aml-asiantaethol sy'n gweithio'n ddwys gyda phlant a phobl ifanc i atal troseddu neu aildroseddu drwy gynnig ymyrraeth arbenigol a gweithio gydag ysgolion, cymunedau a theuluoedd i adnabod datrysiadau. Maent yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, y Bwrdd Iechyd, Tai Gogledd Cymru, Gyrfa Cymru ac eraill, ac yn ystod 2019/20 daeth tîm *'Be di'r Sgôr'* (gwasanaeth camddefnyddio sylweddau i bobl ifanc Gwynedd a Môn) a thîm Emrallt (gwasanaeth i daclo ymddygiad rhywiol problemus ymysg pobl ifanc) yn rhan o'r gwasanaeth.

Mae **Teuluoedd yn Gyntaf** yng Ngwynedd yn cynnig cefnogaeth i deuluoedd yn seiliedig ar eu hanghenion. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ddatblygu'n ymyraethau i'n galluogi i ymateb i anghenion teuluoedd yn y modd mwyaf effeithiol, gan dreialu cynlluniau peilot gan Barnardos ac Y Bont yn ymwneud â rheoli gwrthdaro ymysg y teulu a chefnogi llesiant plant.

Mae **Strategaeth Gofalwyr** Gogledd Cymru wedi ei fabwysiadu i gydnabod pwysigrwydd cydweithio â gofalwyr o bob oed. Rydym wedi bod yn gweithio i wireddu'r strategaeth yn lleol ac yn ystod 2019/20 llwyddwyd i benodi Gweithiwr Prosiect Gofalwyr am gyfnod o flwyddyn i edrych ar ein modd o asesu anghenion gofalwyr di-dâl, gyda'r bwriad o gysoni'r ffordd yr ydym yn cydweithio efo gofalwyr. Yn ogystal, lansiwyd llyfryn gwybodaeth *"Edrych ar ôl rhywun?"* i ddarparu gwybodaeth i ofalwyr ar byncíau amrywiol a buom yn gweithio ar wreiddio'r Cynllun Ysbaid sydd â'r nod o ddarparu cynlluniau ysbaid amgen a hyblyg i ofalwyr mewn ffyrdd creadigol.

## Safon Ansawdd 6

**Gweithio gyda pobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni'u hanghenion**

Mae hyn yn cynnwys eu cefnogi i gael gwaith da, ac i gael mynediad rhwydd at wasanaethau sydd eu hangen arnynt megis cymorth ariannol neu lety addas.

Un o'n blaenoriaethau mwyaf yw i sicrhau digon o dai pwrpasol o safon i gyfarch anghenion poblogaeth sy'n newid. Llynedd bu i mi adrodd ein bod wedi llunio **Strategaeth Dai** i anelu i uchafu safonau tai yng Ngwynedd yn ogystal â gwella mynediad at dai drwy gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl i'w galluogi i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau. Mabwysiadodd y Cyngor "Strategaeth Tai Gwynedd 2019-2024" yn mis Gorffennaf 2019, ac yn ystod y flwyddyn rydym wedi cychwyn ar y gwaith o wireddu elfennau ohoni. Rydym wedi cynnal asesiad budd-cost ar y cynlluniau sydd yn rhan o'r Strategaeth, er mwyn sicrhau ein bod yn targedu gweithgareddau a gaiff yr effaith mwyaf ar drigolion Gwynedd. Mae gwaith hefyd wedi cychwyn i ariannu cynlluniau megis llety pwrpasol ar gyfer y digartref; dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd; a chynllun i bobl fregus adfer a gwella cyflwr eu tai.




Ers 2015/16, mae'r **Gwasanaeth Digartrefedd** wedi gweld cynnydd blynyddol yn nifer yr unigolion sy'n dod atom yn ddigartref. Rydym wedi gweld cynnydd o 35% yn y nifer sy'n cyflwyno yn ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae'r galw'n parhau yn uwch nag erioed gyda 745 o unigolion wedi derbyn gwasanaeth yn 2019/20. Diffyg llety un llofft i bobl sengl yw un o'r prif rwystrau sy'n atal bobl mewn llety dros dro rhag symud i lety parhaol. Mae llety fforddiadwy, yn enwedig i bobl o dan 35 oed, yn parhau i'n rhwystro ni rhag lleihau'r tebygolrwydd o fod yn ddigartref yn y lle cyntaf. Mae nifer o'r cynlluniau o fewn Strategaeth Tai Gwynedd yn mynd i gyfrannu at geisio lleihau'r broblem hon.

Lansiwyd prosiect arloesol gwerth £40,000 i godi ymwybyddiaeth o **ddigartrefedd ymysg pobl ifanc** yng Ngwynedd. Cydweithiodd y Gwasanaeth Ieuenctid gyda elusen digartrefedd pobl ifanc, GISDA, i ddatblygu gweithgareddau a phecyn hyfforddiant i'w defnyddio gyda phobl ifanc gan roi cipolwg o realiti llwm bywyd fel person digartref, y rhesymau pam fod pobl yn ddigartref, ble i droi am help, ynghyd â rhai o'r sgiliau bywyd sydd eu hangen fel sut i fyw ar gyllideb. Law yn llaw â'r gwaith hwn mae'r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd wedi dod a phartneriaid ynghyd i gomisiynu gwaith ymchwil gyda phobl ifanc er mwyn siapio **Cynllun Lletya Pobl Ifanc**.

Ar y cyd â Cais a Grŵp Cynefin, mae prosiect newydd cyffrous ar y gweill ers mis Mawrth 2019 i ddatblygu llety 8 llofft ym Mangor sy'n cynnig cefnogaeth i bobl sy'n gadael carchar a phobl ag anghenion dwys sydd wedi bod yn cysgu allan. Drwy gydweithio gyda phartneriaid bydd y prosiect yn llwyddo i gynnig y ddarpariaeth sydd ei angen ar ein trigolion. Bu'r prosiect yma yn llwyddiannus yng Ngwobrau Cymorth Cymru yn y categori atal digartrefedd a gynhaliwyd fis Tachwedd 2019.

Rydym fel Cyngor hefyd yn darparu grantiau i addasu tai er mwyn i bobl ag anableddau allu parhau i fyw yn eu cartrefi, yn ogystal â grantiau "galluogi" i helpu bobl barhau i fyw'n annibynnol yn eu tai eu hunain. Yn ystod 2019-20, gwnaethom ddarparu 89 o'r grantiau i addasu tai a 128 o'r grantiau "galluogi".

Yn Mehefin 2019, agorwyd **Tai Gofal Ychwanegol** Hafod y Gest ym Mhorthmadog gan y Gweinidog Julie James, datblygiad ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Grŵp Cynefin wedi ariannu'n rhannol gan Grant Tai Llywodraeth Cymru. Mae'r datblygiad yn caniatáu i bobl hŷn yr ardal fyw'n annibynnol mewn amgylchedd cymunedol ddiogel lle mae gwasanaethau cefnogaeth a gofal hyblyg ar gael. Rwy'n falch o adrodd fod pob un o'r 49 o denantiaid wedi ymgartrefu yn y 40 fflat yno. Mae'r tenantiaid yn hapus eu byd, wedi creu cymuned glos ac yn dweud "na allant fod mewn lleoliad gwell ar eu cyfer". Mae cymdeithas dai Adra hefyd wedi derbyn y caniatadau perthnasol ar gyfer datblygu Tai Gofal Ychwanegol pellach ym Mhwllheli, a bydd gwaith ar y safle yn dechrau'n ystod 2020/21. Mae gwaith dechreuol hefyd ar droed i ehangu'r ddarpariaeth ym Meirionnydd.

Un elfen o waith y **5 Tîm Ardal Lleol** fydd datblygu'r ffordd mae gofal cartref yn cael ei ddarparu yn y sir er mwyn gwella'r ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau.[4]

[4] Gwybodaeth fanylach am y 5 Tîm Ardal Lleol i'w ganfod o dan Safon Ansawdd Un.

Mae **gwasanaeth Derwen** yn cynnig gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd. Yn ystod y flwyddyn maent wedi gweld nifer o achosion dwys a chymhleth gan gynnwys ceisiadau ar gyfer addasiadau tai. Mae prinder cyffredinol o dai addas, neu tai lle mae posibilrwydd eu haddasu, yn gwneud y gwaith hwn yn heriol tu hwnt, ond mae'r tîm yn cydweithio'n agos gyda'n Adran Tai ac Eiddo i ganfod y datrysiadau gorau posib i'r plant a'u teuluoedd. Hyd yma rydym wedi derbyn adborth positif iawn ar y cynnydd sydd wedi ei wneud yn symud achosion yn eu blaenau.

Rhan greiddiol o unrhyw ddarpariaeth gofal yw'r angen i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu derbyn y gwasanaeth drwy gyfrwng eu mamiaith neu'r iaith sydd fwyaf cyfforddus iddyn nhw. Yng Ngwynedd, y **Gymraeg** yw'r iaith hon i nifer. Ers 1996 rydym yn gweithredu'n ddwyieithog ymhob agwedd o'n gwaith. Mae ein polisi iaith wedi ymestyn i brosesau a gofynion recriwtio, casglu data, cytundebau, comisiynu, caffael a hyfforddiant. Rwyf yn manylu yn yr adran nesaf am sut yr ydym yn cyflawni yn erbyn Fframwaith 'Mwy na Geiriau'.

## 4. Sut rydym yn gwneud ein gwaith

Mae'r rhannau uchod wedi ceisio rhoi blas ar y prif weithgareddau dros y flwyddyn a fu, gan gydnabod ei bod yn amhosib manylu ar bob darn o waith mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymgymryd â nhw. Mae'r isod yn rhoi trosolwg o sut yr ydym yn gwneud ein gwaith.

### Ein dull newydd o weithio ar draws y Cyngor a Gwasanaethau Cymdeithasol

Fel yr wyf wedi'i nodi, sylfaen ein gwaith yw i geisio gweithredu mewn dull sy'n rhoi pobl Gwynedd yn ganolog. Mae hyn yn ein symud oddi wrth ffordd o weithio sy'n dilyn prosesau hanesyddol, ac at ffordd sy'n cychwyn gyda'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn o'n blaenau. Mae'n newid mawr i nifer o staff ond mae'n ddull o weithio sy'n aml yn eu rhyddhau o gyfyngiadau sy'n eu rhwystro rhag gwneud y peth iawn i bobl Gwynedd.

### Y Gymraeg a chyflawni yn erbyn gofynion fframwaith 'Mwy na Geiriau'

Rydym yn croesawu ac wedi ymrwymo'n llawn i ofynion 'Mwy na Geiriau', ac rwy'n arwain yn genedlaethol ar yr agenda ar ran Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Rwyf hefyd yn aelod o Fwrdd Partneriaeth y Gymraeg, sy'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru, ac yn cadeirio Fforwm 'Mwy na Geiriau' Gogledd Cymru. Mae'r fforwm yn darparu cyfleon i rannu syniadau a chydweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd, cynghorau a mudiadau eraill. Rydym yn cydweithio gyda rhai sy'n arwain ar brosiectau digidol er mwyn gweithredu'n rhagweithiol a sicrhau fod y seilwaith i'n galluogi i ddarparu gwasanaethau'n y Gymraeg mewn lle o'r cychwyn.

Mae ymrwymiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd i egwyddorion 'Mwy na Geiriau' yn adlewyrchiad o'r ymrwymiad a'r flaenoriaeth a roddir ar draws y Cyngor i gynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Dynodwyd uwch swyddog i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y maes gofal. Mae'r swyddog yma hefyd yn cael ei hadnabod fel 'Llysgennad Busnes' i gydweithio gyda Gyrfa Cymru.

Ar ddiwedd 2019/20 roedd tua 88% o staff y gwasanaethau cymdeithasol yn gallu'r Gymraeg

Ar ddiwedd 2019/20 roedd tua 88% o staff y gwasanaethau cymdeithasol yn gallu'r Gymraeg ac rydym yn hyderus iawn yng ngallu'r Cyngor i weithredu'r Cynnig Rhagweithiol. Rydym bellach mewn gwell sefyllfa i gofnodi data ieithyddol perthnasol ers i'r system gyfrifiadurol newydd, WCCIS, ddod i rym.  Mae adroddiadau o'r system WCCIS yn fodd o adnabod gwendidau a diffygion y ddarpariaeth mewn perthynas â'r Cynnig Rhagweithiol, a bydd yr wybodaeth yma'n bwydo i brosesau cynllunio a chomisiynu. Rydym wedi bod yn gwneud gwaith yn edrych ar broffiliau iaith y timau integredig sydd wedi eu sefydlu rhyngom ni a'r Bwrdd Iechyd hefyd. Yn 2020/21 bydd gwaith yn digwydd i sefydlu proffiliau iaith staff y Bwrdd Iechyd sy'n rhan o'r timau, a byddwn yn gwneud y cyswllt gyda Chyngor Ynys Môn hefyd. Y bwriad yn y pendraw yw i ystyried a oes angen llenwi bylchau gan edrych wedyn ar y sefyllfa fesul tîm.

Un cynllun newydd cyffrous sydd ar y gweill yn y maes Blynyddoedd Cynnar yw ymestyn gwaith sgrinio teclyn *Welcomm* i ysgolion o fewn ardaloedd y cynllun Dechrau'n Deg. Mae hwn yn waith sy'n ceisio gwella datblygiad iaith plentyn, ac mae'r canlyniadau cychwynnol yn addawol. Mae'r cais grant wedi ei gyflwyno er mwyn i therapyddion iaith gydweithio ag ymwelwyr iechyd a datblygu'r ddarpariaeth ymhellach.

Rydym hefyd yn rhoi sylw i'r Gymraeg fel rhan o'n hymdrechion i gryfhau ein gweithle a'n sefyllfa recriwtio i'r maes gan dargedu meysydd penodol lle mae bwlch yn y ddarpariaeth e.e. therapi galwedigaethol. Mae mwy o wybodaeth yn y rhan nesaf o'r adroddiad.

## Ein gweithlu a sut yr ydym yn cefnogi eu swyddogaeth broffesiynol

Mae gofal cymdeithasol yng Ngwynedd yn cael ei ddarparu gan gymysgedd eang o wasanaethau statudol, asiantaethau preifat a'r trydydd sector, ac mae staffio'r maes yn un o heriau mwyaf ein gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r heriau yn benodol amlwg yn y maes gofal cartref, ac mae hyn yn gynyddol bryderus i mi fel Cyfarwyddwr wrth i ni fethu â darparu pecynnau gofal mewn rhai sefyllfaoedd o ganlyniad i ddiffyg staff. Mae gennym weithlu ymroddedig ac effeithiol, ond mae'n rhaid i ni sicrhau fod y nifer cywir gennym er mwyn gallu diwallu'r angen i'r dyfodol. Mae gwaith ymchwil diweddar yn dangos bod y sector gofal cymdeithasol yn creu gwerth economaidd ehangach ac er mwyn ceisio denu mwy o ddiddordeb gyrfaol bydd angen i ni godi proffil a statws y maes. O'r herwydd, mae'r gwaith yma wedi ei gynnwys fel un o'n blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor 2018-23, ac mae Grŵp Recriwtio eisoes yn gwneud gwaith i wella'r sefyllfa. Mae gwaith y grŵp yn plethu i waith y Grŵp Recriwtio Rhanbarthol a grwpiau gwaith

ymgyrch cenedlaethol 'Gofalwn Cymru' er mwyn sicrhau nad oes dyblygu a'n bod yn adeiladu ar ymarfer da ar draws Cymru.

Yn ystod 2019/20 cynlluniwyd i lenwi swydd Cydlynydd Gyrfaol Gofal Rhanbarthol gyda phenodiad llwyddiannus wedi ei wneud ym Mawrth 2020. Edrychwn ymlaen i ddatblygu'r swydd ac adeiladu ar ein gwaith o sefydlu strwythurau a pherthnasau gyda'n partneriaid allweddol fel Gyrfa Cymru a DWP. Rydym hefyd wedi bod yn gwneud gwaith i adolygu Cynllun Prentisiaethau'r cyngor i geisio dylanwadu ar y nifer o brentisiaethau sydd ar gael ym maes gofal. Rydym wedi targedu meysydd lle mae anawsterau penodol yn codi e.e. sgiliau arwain o fewn maes gofal preswyl ac arbenigedd addas ynghyd â'r gallu i weithio'n y Gymraeg ym maes therapi galwedigaethol. Gyda'r bwriad o geisio denu mwy o bobl ifanc i'r maes gofal, mae prosiect Pontio'r Cenedlaethau wedi creu cyfleoedd i fyfyrwyr Coleg Meirion Dwyfor gydweithio gyda pobl hŷn mewn lleoliadau gwahanol ar draws y Sir.

Yn ychwanegol, mae cyfnod argyfwng Covid-19 wedi rhoi llwyfan i ni amlygu pwysigrwydd y maes, ac wedi tynnu mwy o sylw at yr heriau sy'n dal i fodoli. Fel Cyfarwyddwr, rwy'n teimlo ei bod yn hollbwysig nad ydym yn colli'r cyfle yma i fod yn llawer mwy dychmygus wrth i ni ystyried y ffordd ymlaen ar gyfer y maes. Mae nifer o weithlu'r maes wedi addasu er mwyn ymgymryd â swyddogaethau gwahanol neu weithio mewn ffordd wahanol ac yn ystod 2020-21 byddaf, ar y cyd â'r Penaethiaid a'r Uwch Reolwyr perthnasol, yn sicrhau ein bod yn ystyried y gwersi a ddysgwyd er mwyn siapio a chryfhau ein gwasanaethau ar gyfer oedolion a phlant bregus, gan ganolbwyntio ar gyfarch yr hyn sy'n bwysig a sicrhau cynaliadwyedd ein gwasanaethau yn wyneb argyfwng i'r dyfodol. Hoffwn ddiolch o galon i'r holl staff a gwirfoddolwyr sydd wedi bod mor barod i gamu mewn ac i gydweithio, yn aml mewn amgylchiadau anghyfarwydd, i sicrhau ein bod yn cyflawni'n cyfrifoldebau tuag at bobl Gwynedd yn ystod yr adeg heriol hwn.

## Ein hadnoddau ariannol a sut yr ydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol

Mae cyllideb Awdurdodau Lleol wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf oherwydd y lleihad yn y grant a ddaw gan Lywodraeth Cymru. Er hynny, mae pobl yn byw'n hirach, ac yn aml â chyflyrau iechyd cymhleth, ac felly mae'r galw ar ein gwasanaethau a'n cyllideb yn cynyddu. Fodd bynnag, mae'n dull o weithio'n golygu ein bod yn fwy hyblyg a chreadigol wrth ddarparu gwasanaethau, gan geisio cadw effaith unrhyw doriadau ar bobl Gwynedd i'r lleiafswm posib tra'n parhau i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl. Rhan o hyn yw ceisio sicrhau ein bod yn edrych ar ffyrdd gwell a di-dor o ddarparu ein gwasanaethau i bobl.

Mae cynlluniau lleol trawsffurfiol eu natur felly ar y gweill fydd yn ceisio ymateb i'r her o gyflenwi gwasanaethau iechyd a gofal mewn dulliau mwy cydlynus o fewn yr amlen ariannol.

Rydym yn derbyn nifer o grantiau ar gyfer darparu gwasanaethau a phrosiectau, ond mae'r cyllid yma fel arfer yn fyrdymor, sy'n golygu cytundebau tymor byr i staff. Mae hyn yn ei dro yn ei gwneud yn anodd cadw staff profiadol oherwydd na allwn warantu cyflogaeth tymor hir neu barhaol. Mae ein gweithwyr yn magu perthynas dda gyda nifer o'n trigolion ac felly mae'r ansicrwydd yma a'r angen i gychwyn o'r newydd gyda gweithwyr newydd yn ei dro'n cael effaith arnyn nhw, ac ar y gwasanaeth maen nhw'n ei dderbyn gennym.

Wrth edrych ar sefyllfa derfynol 2019/20, mae'n amlwg iawn fod pwysau sylweddol yn wynebu'r maes gofal. Yn dilyn derbyn ac ail gyfeirio grantiau gan y Llywodraeth, bu gwelliant yn sefyllfa ariannol ddiwedd blwyddyn yr Adran Oedolion. Bu cynnydd yn y tueddiad gorwariant gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd sydd wedi arwain at or-wariant ddiwedd y flwyddyn. Nid yw'r sefyllfa gorwariant yn y maes plant yn unigryw i Wynedd, mae'n ddarlun a welir ar draws yr awdurdodau, ac mae'r sefyllfa yn fy mhryderu. Rydym eisoes wedi comisiynu gwaith er mwyn cael gwell dealltwriaeth, ynghyd â rhoi sylw i faterion ariannol dyrys y ddwy adran.

## Gweithio mewn partneriaeth

Rhan greiddiol o'n gwaith yw gweithio mewn partneriaeth yn lleol ac yn rhanbarthol gyda phartneriaid megis y Bwrdd Iechyd, yr Heddlu a'r trydydd sector. Mae cyfeiriadau drwy gydol yr adroddiad at wahanol ddarnau o waith sy'n aml yn cael eu gweithredu mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Rwy'n falch iawn o'r berthynas sydd gennym gyda'n partneriaid yn lleol, lle mae cydweithio adeiladol yn digwydd a thrafodaethau agored ar unrhyw wahaniaeth barn i geisio sicrhau ein bod yn cytuno ar y ffordd orau o weithio ar gyfer ein poblogaeth.

Ar ddiwedd y flwyddyn, daeth argyfwng Covid-19 i'n taro. Mae'r Cyngor yn cefnogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyd-gordio'r ymateb cenedlaethol ar ran Llywodraeth Cymru. Yn ystod y cyfnod ansicr hwn, rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol a gweithio'n agos gyda'n partneriaid i gefnogi ymdrechion. Rydym yn ffodus o'r trefniadau gweithio llwyddiannus sydd mewn lle gyda'n partneriaid, a'r gallu sydd gennym i addasu ac ymateb yn arloesol yn wyneb argyfwng. Byddwn yn parhau, wrth gwrs, i ymateb i'r gofynion fel fydd y sefyllfa yn datblygu ac rwy'n mawr obeithio y bydd nifer o'r trefniadau newydd yn parhau yn dilyn yr argyfwng. Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch i'n staff a'n darparwyr am addasu i'r sefyllfa gan sicrhau'r gwasanaeth gorau i drigolion Gwynedd yn ystod cyfnod cythryblus o anodd.

Y prif beth sydd wedi'i amlygu gan yr argyfwng yw pwysigrwydd cydweithio agos rhyngom fel partneriaid i'r dyfodol. Mae'r angen i ni barchu'r system ofal yn ei chyfanrwydd, a chyfraniad pawb ati, ac rwy'n benderfynol fel Cyfarwyddwr fy mod am barhau i geisio cynnal a meithrin y math yma o weithio a rhwydweithio. Mae sawl ffrwd gwaith yn rhanbarthol hefyd lle rwy'n cyfrannu at y weledigaeth yma o fod yn bartneriaid hafal gan geisio'r gorau i'n poblogaeth.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn weithredol ers rhai blynyddoedd bellach. Rwyf i ac Aelod Cabinet Oedolion, y Cynghorydd Dafydd Meurig, yn aelodau o'r Bwrdd hwn. Rydym hefyd fel partneriaid yn cyfarfod fel Grŵp Integredig Gofal ac Iechyd er mwyn sicrhau ein bod yn cytuno'r ffordd ymlaen ar lefel mwy lleol. Mae'r grŵp yma hefyd yn atebol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn sy'n cryfhau'r atebolrwydd lleol. Ers dwy flynedd bellach rwyf hefyd fel Cyfarwyddwr yn aelod cyswllt ar Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Mae fy rôl yma yn un sy'n ymwneud â chynghori a rhoi adborth i'r Bwrdd Iechyd ar faterion sydd yn ymwneud â'r maes gofal cymdeithasol, ac er nad oes gennyf rôl sydd â phleidlais ar y Bwrdd, rwy'n ei ystyried yn fuddsoddiad amser gwerthfawr o ran ceisio rhoi gogwydd gofal ar y trafodaethau hyn.

Rydym fel Cyngor yn rhan o Gyd-Bwyllgor Iechyd y Canolbarth sydd â'r nod o sicrhau bod gwasanaethau gofal ac iechyd yng Nghanolbarth Cymru yn effeithiol ar gyfer ei boblogaeth. Mae daearyddiaeth Gwynedd wrth gwrs yn golygu bod y boblogaeth yn ne'r sir yn defnyddio gwasanaethau iechyd Bwrdd Iechyd Hywel Dda gan fwyaf ac felly mae cynnal y berthynas yma ar lefel arweiniol yn hynod bwysig.

Mae'r Grŵp Cyswllt Trydydd Sector, sy'n rhoi trosolwg o'r maes ac sy'n annog a gwthio cydweithio effeithiol rhwng sefydliadau statudol a'r trydydd sector, yn symud yn ei flaen ac yn cryfhau. Mae cyflwyniadau ac ymweliadau yn cael eu trefnu drwy'r Grŵp Cyswllt sy'n sicrhau bod cyfleoedd i wella gwasanaethau i'r boblogaeth yn cael eu trafod a'u cytuno. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol fod archwiliad i'n gwaith wedi amlygu'r angen i ymgysylltu mwy gyda'r trydydd sector, gan sicrhau mwy o gyfleon iddynt gyfrannu at yr agenda lles. Mae'r archwiliad hefyd wedi amlygu'r angen i ni sicrhau cysondeb rhwng cymunedau mewn perthynas â chydweithredu rhagweithiol gyda'r sector. Byddwn yn rhoi sylw i'r materion hyn yn symud ymlaen, ac mae'n debygol y bydd argyfwng Covid-19 wedi cael effaith bositif ar y ffordd yr ydym yn cydweithio i gefnogi'n cymunedau. Bydd dal ein gafael ar hynny'n hollbwysig.

## Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd

Rhan o'r Ddeddf sy'n bwysig imi dynnu eich sylw ati yw Rhan 8, sy'n nodi'r gofynion sydd arnaf fel Cyfarwyddwr Statudol am Wasanaethau Cymdeithasol. Mae Cabinet Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo 'Protocol y Cyfarwyddwr'. Dogfen yw hon sy'n amlinellu sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfarch y gofynion deddfwriaethol. Mae'r protocol yn sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn ynghyd â llinellau atebolrwydd cryf. Mae'r protocol ar y wefan, ac mae'n bwysig fod staff ac aelodau hefyd yn ymgyfarwyddo eu hunain â'r gofynion.

Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu mewnol cadarn i gefnogi rheolaeth effeithiol o wasanaethau cymdeithasol. Yn ogystal â chyflwyno adroddiadau i bwyllgorau craffu, mae gennym hefyd strwythur herio perfformiad adrannol sefydlog. Rydym hefyd yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r Arolygaeth i sicrhau bod ein gweithdrefnau'n gadarn. Mae'r Pwyllgorau Craffu wedi cyfrannu'n helaeth eto eleni wrth graffu meysydd arbennig a chynnig persbectifau pwysig inni er mwyn gwella'n barhaus.

Mae'r Cyngor wedi pennu dau o aelodau'r Cabinet ar gyfer y meysydd o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol, sef y Cynghorydd Dafydd Meurig ar gyfer y meysydd Oedolion, Iechyd a Llesiant, a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan ar gyfer y meysydd Plant a Chefnogi Teuluoedd.

## Dysgu a Datblygu

Mae dysgu a gwella yn rhan allweddol o'n model gweithredu os am wella ein perfformiad a chyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd. Mae timau'n cael eu dysgu bellach i gychwyn gyda'r cwestiwn o beth sydd yn bwysig i bobl Gwynedd a cheisio gwneud popeth yn eu gallu i sicrhau bod ein trefniadau gwaith yn cyflawni hyn lle bo'n bosib.

Rhan allweddol o'r broses ddysgu hon wrth gwrs yw i ddysgu o gwynion. Mae trefniadau'n eu lle i adrodd yn ôl yn gyson ar gwynion sy'n codi o'r maes gofal, a gwneir pob ymdrech i ddatrys, ymateb, a dysgu ohonynt cyn gynted ag y bo modd. Cyhoeddir adroddiad blynyddol penodol ar gwynion, sy'n cynnig trosolwg o'r holl gwynion a dderbyniwyd ar draws holl adrannau'r Cyngor yn ystod 2019/20.

Trwy ymateb yn bositif yn ystod y camau cynnar hyn, gall rhai materion gael eu datrys yn effeithiol heb fod angen dilyn y Drefn Gwynion ffurfiol gan fod hwn yn gyfle i ymdrin ag unrhyw gamddealltwriaeth neu ymateb i ymholiadau. Heb os, dyma'r canlyniad gorau i bawb. Un o'r themâu amlwg wrth ddelio ag ymholiadau a chwynion anffurfiol ydy camddealltwriaeth rhwng pobl oherwydd diffyg cyfathrebu clir a chyson.

Yn ystod 2019/2020, derbyniodd yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd tri cais i uchafu cwyn i Gam 2 o'r Drefn Gwynion Statudol. Cafodd un cais hefyd ei gyflwyno gan achwynydd i gŵyn gael ei hymchwilio o dan drefniadau Cam 2 yn syth heb fynd drwy brosesau Cam 1 yn gyntaf. Mae'r Adran wedi bod mewn cyswllt gyda Swyddfa'r Ombwdsman ers rhai blynyddoedd bellach ynglŷn ag un achos penodol - mae'r Ombwdsman wedi cynnal un ymchwiliad ffurfiol yn 2018/19 ac ym mis Ebrill 2019 penderfynwyd agor ymchwiliad pellach. Mae'r Adran wedi derbyn sawl argymhelliad gan yr Ombwdsman, ac mae un yn parhau i fod angen ei gwblhau ond mae llithriad wedi bod yn y gwaith o ganlyniad i argyfwng Covid-19. Mae'r Adran wedi ymrwymo i gwblhau'r argymhellion cyn gynted a'i bod yn ddiogel a phriodol i wneud hynny. Mae'r Adran yn parhau i fod mewn cyswllt gyda'r Ombwdsman ar yr achos hwn.

Yn ystod 2019/2020, cafodd 14 o gwynion yr Adran Oedolion ymateb yng ngham 1 y drefn gwynion. Ni dderbyniwyd unrhyw gais i symud cwynion ymlaen o gam 1 i gam 2. Ar ddiwedd 2019, derbyniwyd canlyniad un ymchwiliad a oedd yn cael ei ystyried gan yr Ombwdsman ers 2018/19 a cyhoeddwyd yr adroddiad ar wefan y Cyngor gyda chopïau caled ar gael yn Siop Gwynedd, yn unol â chanllawiau'r Ombwdsmon. Mae'r Cyngor wedi derbyn argymhellion yr Ombwdsman, ond mae'r broses o'u gweithredu wedi ei ohirio oherwydd effaith Covid-19 ar waith yr Adran. Mae bwriad i gwblhau'r gwaith yma cyn gynted a phosib.

Yn gyffredinol, mae trefniadau effeithiol yn ei le gan y ddwy adran i sicrhau bod pob cwyn yn derbyn y sylw haeddiannol a phriodol. Serch hyn, er mwyn dysgu o'r cwynion hynny oedd yn fwy cymhleth ac sydd wedi cael sylw pellach gan yr Ombwdsman, rydym fel Cyngor wedi rhoi trefn pellach yn ei le fel y gallaf fel Cyfarwyddwr fonitro yn agosach ein rhaglenni gweithredu a chyrhaeddiad y ddwy adran yn erbyn rhain i'r dyfodol. Rwy'n gobeithio y gallwn, drwy wneud hynny, sicrhau ein bod yn glir ynghylch yr hyn sydd angen ei weithredu a'u bod yn cael eu gweithredu'n amserol a chyflawn.

## Digidol

Rydym yn byw mewn byd sy'n newid ac addasu i dechnoleg newydd yn rheolaidd. Mae argyfwng Covid-19 wedi dangos pa mor bwysig ac effeithiol yw technoleg i ni gyd os am barhau i allu gweithredu mewn rhai sefyllfaoedd. Ni fyddem wedi gallu rhagweld y byddai'r Cyngor wedi gallu addasu mor sydyn i'r sefyllfa, gan sicrhau fod canran uchel o'n staff yn medru gweithio o adref i barhau i ddarparu gwasanaethau o safon.

Fel rhan o'r ymateb i'r argyfwng, rydym wedi cydweithio'n rhanbarthol gyda'r

Bwrdd Iechyd a'r Awdurdodau Lleol i ddatblygu system dros dro ar gyfer *profi, olrhain a diogelu*, gyda'r system yma'n cael ei defnyddio tra bod system genedlaethol yn cael ei datblygu. Er bod y system genedlaethol bellach mewn defnydd, mae elfennau o'r datblygiad a wnaethpwyd gan Gyngor Gwynedd dal mewn defnydd ar gyfer llwyfannu a rhannu gwybodaeth. Mae'r system wedi derbyn canmoliaeth mawr gan swyddogion blaenllaw yn y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdodau Lleol a hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch o galon i'r swyddogion hynny wnaeth ddatblygu'r system yma ar fyr rybydd.

Rydym fel Cyngor yn ychwanegu'n rheolaidd at y gwasanaethau sydd ar gael yn ddigidol. Mae ein system hunanwasanaeth ar-lein yn golygu gall trigolion Gwynedd wneud cais am wasanaethau'r Cyngor unrhyw adeg o'r dydd. Mae gwasanaethau ar-lein Gwynedd yn saff, cyflym a hawdd eu defnyddio - sy'n golygu y gallwn ni gyflymu'r broses o ymateb i geisiadau gwasanaeth pobl leol.

Mewn partneriaeth gyda chanolfan arddio Fron Goch rydym yn peilota technoleg 'Wandersafe'. Technoleg sydd fel arfer yn cael ei defnyddio yn y sector gofal ydi o, a dyma'r tro cyntaf iddi gael ei defnyddio mewn safle masnachol. Y nod yw i roi rhyddid i berson sy'n byw â dementia grwydro o amgylch y ganolfan arddio yn annibynnol, gan roi tawelwch meddwl i'w gofalwr. Mae'r system yn gweithio drwy ddarparu synhwyrydd i'r unigolyn, a math o larwm neu 'pager' i'r gofalwr. Bydd y larwm yn canu i hysbysu'r gofalwr pe bai'r unigolyn yn cerdded tuag at y brif fynedfa. Mae Arloesi Gwynedd Wledig yn monitro defnydd o'r dechnoleg yn Fron Goch. Os yw'r peilot yn llwyddiannus bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu gyda busnesau eraill yng Ngwynedd i'w hannog i fuddsoddi.

## 5. Blaenoriaethau 2020/21

Dyma brif flaenoriaethau Gwasanaethau Cymdeithasol am y flwyddyn 2020/21:

- Parhau gyda'r gwaith o ymateb yn briodol i argyfwng COVID-19
- Cyfrannu i'r gwaith rhanbarthol fydd yn digwydd i sicrhau bod gennym wasanaethau cymdeithasol cadarn wrth symud ymlaen
- Sicrhau ein bod yn dysgu gwersi sydd wedi eu hamlygu yn ystod argyfwng COVID-19 gan adolygu ein trefniadau fel sydd angen. Bydd hyn yn cynnwys sut yr ydym yn gweithio gyda'n partneriaid allweddol megis y sector gofal, y bwrdd iechyd a'r trydydd sector
- Sicrhau bod timau o fewn gwasanaethau gofal i oedolion yn gweithio oddi mewn i'r model gweithredu newydd yn unol â'r disgwyliad
- Paratoi trefniadau comisiynu ar gyfer y model darparu gofal cartref newydd, gyda'r bwriad o fod yn barod i fynd allan i dendr i'r farchnad erbyn diwedd y flwyddyn
- Edrych ar y trefniadau/strwythurau gweithredu rhwng yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Addysg yn dilyn gwaith casglu data a ddigwyddodd ddechrau 2020, a threialu ac asesu ffordd newydd o weithio rhwng y ddwy adran.
- Sicrhau gweithlu addas ar gyfer y maes gofal i'r dyfodol drwy gydweithio gyda phartneriaid allweddol, fel darparwyr allanol, gan geisio ymateb yn rhagweithiol i'r rhwystrau systemig sy'n bodoli ac edrych ar unrhyw gyfleoedd / dysgu sydd wedi codi oherwydd argyfwng Covid-19
- Parhau i adeiladu ar y gwaith mae'r Panel Rhiantu Corfforaethol wedi ei sefydlu er mwyn edrych ar lesiant a ffyniant ein plant mewn gofal drwy eu llygaid hwy a pharhau i fonitro ac adlewyrchu ar ein trefniadau cyffredinol o ran ein plant mewn gofal
- Gweithredu ar argymhellion Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n codi o weithgareddau ffocws gwahanol ar draws y ddwy adran
- Parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o beth fyddai'r trefniadau gorau i gefnogi llesiant pobl Gwynedd
- Parhau gyda'r gwaith o ddeall modelau cost gwahanol agweddau o wasanaethau oedolion a phlant er mwyn sicrhau bod y cyllidebau sydd eu hangen yn wybyddus i arweinwyr
- Parhau i ddysgu o gwynion a sicrhau bod argymhellion sy'n cael eu gweithredu'n amserol a chyflawn

## Atodiad 1: Mesur Perfformiad 2019/20

| | Mesur | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Nifer y defnyddwyr gwasanaethau oedolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol | 121 | - | 121 | 139 | 142 | 132 |
| 2 | Canran o bobl hŷn a phobl sydd ag anableddau corfforol lle gweler cynnydd mewn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy[5] | - | - | 88% | 80.5% | 98.80% | - |
| 3 | Canran o bobl hŷn a phobl sydd ag anableddau corfforol neu synhwyraidd sydd wedi adrodd ein bod wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn llawn neu'n rhannol | - | - | - | - | - | 96%[6] |
| 4 | Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd | 1.05 | 2.38 | 3.40 | 4.9 | 5.23 | 3.46[7] |
| 5 | Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli | 100% | 96.7% | 97.9% | 97.6% | 91.50% | 91.2% |

[5] Penderfynwyd cynnwys y mesur hwn er cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol. Nodwyd fod y dull o fesur wedi newid yn ystod 2019/20 ac felly mesurau rhif 3 a 4 sy'n bodoli bellach.
[6] 76% wedi nodi ein bod wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig yn llawn, ac 20% wedi nodi ein bod wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig yn rhannol
[7] Nodwyd oherwydd oedi o ganlyniad i argyfwng Covid-19 nad yw data mis Mawrth ar gael, felly data yn adlewyrchu 11 mis o'r flwyddyn sydd yma

| | Mesur | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli (gan eithrio'r rhai sydd wedi gwrthod ymyrraeth) | - | 99% | 100% | 99.4% | 93.10% | 97.4% |
| 7 | Y nifer o ddyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl | 316 | 271 | 281 | 204 | 211 | 242 |
| 8 | Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill 2019 a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | 5.7% | 5.13% | 3.68% | 4.82% | 4.7% | 8.56% |
| 9 | Y nifer o ddyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi grant 'Galluogi' i Bobl Anabl | - | - | - | - | - | 77 |
| 10 | Nifer o bobl a gynorthwywyd drwy ddileu peryglon o gartrefi wedi eu rhentu | - | - | - | - | - | 734 |
| 11 | Nifer o unedau tai fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd | 144 | 48 | 71 | 77 | 87 | 89 |
| 12 | Canran plant 2 oed sy'n bresennol yn Dechrau'n Deg | 82% | 83% | 84% | 81% | 79% | 74% |
| 13 | Nifer o'r pecynnau cymorth uwch rhiantu sy'n arwain at deithio pellter cadarnhaol | 38% | 48% | 89% | 76% | 89% | 88% |

| | Mesur | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | Cynllun trosiannol wedi ei gytuno ar gyfer plant anabl 16 oed | 100% | 100% | | 100% | 100% | 100% |
| 15 | Cynllun llwybr wedi ei gytuno ar gyfer plant mewn gofal | 100% | 100% | 100% | 99% | 97% | 99% |
| 16 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth | 18.7% | 18.1% | 17.1% | 10% | 16.7% | 14.20% |
| 17 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | 6.2% | 7.7% | 6% | 7.5% | 5.9% | 8% |
| 18 | Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn | 93.8% | 91% | 91% | 89% | 85% | 84% |
| 19 | Canran yr adolygiadau amddiffyn plant wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn | 95.7% | 85.5% | 92.0% | 90% | 94% | 80% |
| 20 | Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd fod i gael eu cynnal yn | 89% | 86.9% | 90% | 92% | 93% | 90% |

| | Mesur | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | | | | | | |
| 21 | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd wedi cael cynghorydd presennol wedi'i ddyrannu iddynt | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| 22 | Canran o gynadleddau achos lle bu clywed llais/barn y plentyn (ac eithrio plant o dan 7 oed) | 83% | 85% | 84% | 92% | 99% | 94% |
| 23 | Cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed arwyddocaol (a'r ateb wedi ei gofnodi) | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| 24 | Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau | 98% | 97% | 94% | 96% | 99% | 99% |

## Atodiad 2: Gwybodaeth ynghylch y Safonau Ansawdd fel nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014)

### Safon Ansawdd 1

**Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y maent am eu cyflawni**

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- sicrhau mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth clir, dealladwy i gefnogi pobl i gynnal eu lles a gwneud penderfyniadau gwybodus
- gweithio gydag unigolion, eu gofalwyr a sefydliadau sy'n bartneriaid, i gefnogi a chynnal annibyniaeth unigolyn heb yr angen am ofal a chymorth
- cwblhau asesiadau lles mewn modd amserol
- sicrhau bod penderfyniadau'n parchu amgylchiadau unigol ar draws yr ystod gyfan o anghenion a'u bod yn rhoi sylw priodol i gonfensiynau ac egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer plant, pobl hŷn a phobl anabl
- sicrhau bod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch
- galluogi pobl i gael rheolaeth dros gynllunio a darparu gofal
- hyrwyddo ffyrdd o fyw iach a'u cefnogi
- galluogi mynediad i wasanaethau a gweithgareddau sy'n cynnal iechyd meddwl a lles emosiynol
- annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, i fod yn actif ac elwa o ofal a chymorth ataliol rhagweithiol
- trefnu eiriolaeth annibynnol lle bo angen neu gyfeirio at fathau eraill o eiriolaeth i alluogi pobl i oresgyn rhwystrau i gyfranogiad wrth adolygu a diwallu anghenion
- trefnu enwau cyswllt a rhannu gwybodaeth berthnasol gyda phartneriaid er mwyn caniatáu trosglwyddo gofal a chymorth yn llyfn ar draws y gwasanaethau
- hwyluso cynlluniau gofal a chymorth amlddisgyblaethol
- rhoi trefniadau ar waith ar gyfer asesu anghenion a phenderfynu ar gymhwysedd
- egluro heriau yn ogystal â chyflawniadau
- mesur effaith y gofal a'r cymorth, a chymorth i ofalwyr ar fywydau pobl a'u canlyniadau lles
- sicrhau bod pobl yn ymwybodol o dalu am ofal a threfniadau codi tâl

## Safon Ansawdd 2

**Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol pobl**

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- hyrwyddo a chefnogi ffyrdd o fyw iach
- cefnogi gwasanaethau mynediad i gynnal iechyd meddwl a lles emosiynol
- annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u lles, bod yn actif ac elwa o ofal a chymorth ataliol rhagweithiol

## Safon Ansawdd 3

**Diogelu ac amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed**

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- ymateb yn effeithiol i amgylchiadau sy'n newid ac adolygu cyflawniadau canlyniadau lles unigolion yn rheolaidd
- darparu gofal a chefnogaeth i gwrdd ag anghenion a aseswyd i amddiffyn pobl rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu niwed arall
- datblygu trefniadau amddiffynnol ar gyfer y rhai sy'n rhoi eu diogelwch eu hunain mewn perygl i atal camdriniaeth ac esgeulustod.
- rheoli risg mewn ffordd sy'n grymuso pobl i deimlo mewn rheolaeth sy'n gyson ag anghenion diogelu
- gweithio mewn partneriaeth i ymchwilio i honiadau o gamdriniaeth neu esgeulustod er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed
- darparu eiriolaeth mewn perthynas â diogelu

## Safon Ansawdd 4

**Annog a darparu cefnogaeth i bobl ddysgu a chyfranogi mewn cymdeithas**

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- darparu cefnogaeth i bobl wneud y pethau sydd o bwys iddynt hwy
- helpu pobl i ennill y sgiliau a'r cyrhaeddiad addysgol sydd angen arnynt i gymryd rhan yn y pethau sydd o bwys iddynt hwy
- annog pobl i fod yn aelodau gweithredol o gymunedau a chefnogi'i gilydd i leihau ynysu cymdeithasol.

## Safon Ansawdd 5

**Darparu cefnogaeth i bobl er mwyn iddynt ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasau iach yn y cartref, gyda'u teulu ac ar lefel bersonol**

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- darparu cefnogaeth i bobl gynnal perthnasau sydd o bwys iddynt, yn gyson ag anghenion diogelu
- helpu pobl i gydnabod perthnasau anniogel ac i ddiogelu eu hunain rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- lle bo'n briodol, rhoi ystyriaeth i farn teuluoedd, gofalwyr a pherthnasau personol eraill wrth asesu anghenion gofal a chymorth

## Safon Ansawdd 6

**Gweithio gyda pobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni'u hanghenion**

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- darparu cefnogaeth i bobl gyfranogi fel dinasyddion gweithgar yn economaidd ac yn gymdeithasol
- darparu cefnogaeth i bobl gael gwaith ystyrlon a chynnal y gwaith hwnnw

- darparu cefnogaeth i bobl gael cyngor a chymorth ariannol a help gyda budd-daliadau a grantiau
- darparu mynediad i wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill o ddewis
- darparu cefnogaeth i bobl gael llety sy'n diwallu eu hanghenion ac i hwyluso byw'n annibynnol